OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 3226 (Cy.306)

IECHYD PLANHIGION, CYMRU

Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002

Wedi'u gwneud - -	*23 Rhagfyr 2002*
Yn dod i rym - -	*24 Rhagfyr 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi ei ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Teitl, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002; maent yn gymwys i Gymru, a deuant i rym ar 24 Rhagfyr 2002.

Diwygio Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft 1998

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft 1998(**3**) fel y maent yn gymwys i Gymru yn unol â pharagraff (2) isod.

(2) Yn yr Atodlen, yn y golofn â'r pennawd "*Instrument*", ar ôl "Commission Decision 2001/664/EC", ychwanegir "Commission Decision 2002/903/EC"(**4**)), ac yn y golofn â'r pennawd "*Reference*", ar ôl "OJ No. L233, 31.8.01, p. 49", ychwanegir "OJ No. L312, 15.11.02, p. 28".

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 1998/201, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/3167, O.S. 2000/350 (Cy.8), O.S. 2001/2356 (Cy.194) ac O.S. 2002/120 (Cy.14).
(**4**) OJ Rhif L312, 15.11.02, t. 28.